Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. MAWRTH, 1948. Rhif 3.

Mab Enwoca'r India.

Yn Delhi Newydd, ddydd Gwener, Ionor 30, 1948, llofruddiwyd y Mahatma Gandhi gan Hindŵ ieuanc. Ar y ffordd i weddïo am derfyn ar y terfysg yn ei wlad yr oedd "Gwaredwr yr India" ar y pryd. Yn ôl un papur wythnosol Cymraeg, "Syrthiodd Gandhi i'r llawr mewn llyn o waed, a bu farw ym mhen llai nag awr yn ddiweddarach. Cipiwyd ei lofrudd gan y dyrfa o gwmpas, eithr llwyddodd swyddogion yr heddlu i'w gyrchu i le dirgel i'w holi . . . Gwrthododd Gandhi ganiatau i'r meddygon drosglwyddo gwaed iddo gan ddweud mai gwell oedd ganddo farw os oedd ei bobl yn dymuno hynny, ac nad oedd y corff yn cyfrif dim."

Atgofir ni am un arall yn y byd yma, flynyddoedd yn ôl, a wrthododd ei arbed na'i waredu ei hun wrth farw. Ac fel dilynwyr i'r Mab y Saer hwnnw, er gwrthod aml athrawiaeth ynglyn â'i fywyd a'i farwolaeth, ni allwn lai na thalu teyrnged i ŵr mawr yr India yn ein hoes ni. Nid yr India yn unig sy'n galaru ar ei ôl. Talwyd teyrnged iddo ym mhob papur dyddiol drwy'r wlad eisoes, i'w gymeriad a'i ymlyniad wrth egwyddorion grym di-drais. Diau bod hynny'n wir am bob gwlad arall drwy'r byd. Yr oedd, yn ddiddadl, yn un o'r dynion mwyaf a droediodd ein daear erioed, a chydnabyddir hyn mewn byd o "bwerau mawrion." Llwyddodd hwn i ddod â sylwedd a grym di-drais y Testament Newydd i fyd gwleidyddiaeth grym yr ugeinfed ganrif. Oblegid sylfaen athrawiaeth y Mahatma oedd yr adnodau hynny o Bregeth y Mynydd efengyl Mathew :

"Na wrthwynebwch ddrwg ; ond pwy bynnag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd . . .

Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melltithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddïwch dros y rhai a wnel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant . . ."

Rhaid i ni gofio, wrth gwrs, mai yn llenyddiaeth grefyddol yr Hindŵ—y *Bhagavad Gita* oedd ei hoff lyfr—yr oedd yn fwyaf

cartrefol, am mai dyma grefydd ei wlad a'i genedl. Ond cafodd ategiad mawreddog o'i ffordd di-drais, heddychol o fyw yn y Testament Newydd, ac o weithiau Tolstoi, Ruskin, a Thoreau.

Maentumid gan rai mai ychydig a werthfawrogai Gandhi o Gelfyddyd (Art) a Phrydferthwch. Nid yw hynny'n hollol wir. Gwir mai am lafur y dynion a fu'n ei adeiladu a feddyliai fwyaf wrth weld celfyddydwaith fel y Taj Mahal. Ond yr oedd ganddo ei syniadau gwreiddiol ei hun ynglyn â chelfyddyd, a charai brydferthwch yn y byd naturiol o'i gwmpas.

Ond, yn bennaf, sant ag athrylith grefyddol oedd Gandhi. Dywedodd unwaith, "Cymeraf ran mewn gwleidyddiaeth i'r graddau y datblyga'r elfen grefyddol ynof." Amhosibl deall ei wleidyddiaeth, felly, heb yn gyntaf ddeall ei grefydd. Ysgrifennodd lawer iawn i'w bapur, *Young India*, ac oddiyno y gellir crynhoi ei ddoethineb ynglyn â'r syniad am Dduw, Crefydd a Chydwybod, Ffordd Heddwch, Grym Gwirionedd a Chariad. Ysgrifennodd yn helaeth hefyd ar faterion fel Democratiaeth a Rhyddid, Anghydweithrediad, Anufudd-dod Sifil (Civil Disobedience), ac yr oedd ganddo ei syniadau ei hun ynglyn â bwydlysiaeth, ysmocio, yfed, a'r drefn *Caste* a geir yn yr India. Perthyn i amgylchfyd ei wlad ei hun y mae llawer o'i syniadau ar bethau felly ; nid ydynt o ddiddordeb cyffredinol. Goruwch y cyfan fe saif Gandhi fel sant ag athrylith ysbrydol, sant a fu byw dros saith deg a chwech o flynyddoedd a chanddo brofiad o fywyd hir o waith a gwasanaeth dros ei gyd-ddynion.

Ei bwysigrwydd mwyaf efallai oedd iddo ddangos ym myd gwleidyddiaeth gydwladol y syniad Cristnogol ynglyn ag addoli duw Mamon, a llwyddodd drwy ei fywyd a'i farw i roi esiampl fawreddog o'r ffordd iawn i wrthsefyll Mamonyddiaeth. Credwn ei bod yn anhraethol bwysig i wareiddiad ddeall hyn, a hynny ar unwaith.

O ddod o hyd i'r ddoethineb sydd yn ei ysgrifeniadau a'i fywyd, fe all beri i ninnau geisio yn ein bywyd y tangnefedd a'r tawelwch hwnnw sy'n anghenraid arnom mewn adeg argyfyngus yn ein hanes.

Pontardawe. NOEL JAMES.

Hanes Hen Dy Cwrdd, Cefn Coed y Cymer.

DYMA lyfr y dylai pob Undodwr o Gymro a fedr Saesneg ei feddu—*Hen Dŷ Cwrdd Cefn Coed y Cymmer* : by Tom Lewis (Gwasg Gomer ; tud. 233 ; pris 7s. 6ch.). Cyhoeddwyd ef fel rhan bwysig o

ddathliad deucanmlwyddiant yr eglwys Undodaidd yng Nghefn Coed mis Tachwedd diwethaf. Y mae'n gyfrol wych mewn dull-wedd, iaith a chynnwys.

Gŵyr darllenwyr cyson Yr Ymofynnydd yn dda am fedr Mr. Tom Lewis (Mab y Mynydd) fel ysgrifennwr Cymraeg eithr dengys y gyfrol hon ei fod yr un mor hylaw yn y Saesneg. Y mae'r llyfr yn ddarllenadwy dros ben a deil ddiddordeb y darllenydd o'i ddechrau i'w ddiwedd. Prin a dibwys ydyw'r gwallau orgraff-yddol a haedda'r awdur a'r cyhoeddwyr glod am lendid y testun a diwyg y llyfr.

Egyr y gyfrol drwy adolygu'n fyr y sefyllfa grefyddol yn y wlad yn gyffredinol ryw dair canrif yn ôl a'r ymdrech am ryddid crefydd-ol. I'r cefndir hwn gwea'r awdur gyfeiriadau at y frwydr gyfoes yn ardal Merthyr Tydfil a rhydd hanes y cyfnewidiadau a'r dat-blygiadau a esgorodd yn y diwedd ar eglwys Undodaidd Cefn Coed. Ni chyfynga ei hun ychwaith i ddadleuon a datblygiadau diwinyddol eithr olrheinia gyfraniad sylweddol yr eglwys i welliann-au cymdeithasol ac addysgol yn yr ardal.

Y mae Mr. Lewis yn gynefin iawn a bywyd gwlad a phentref. Gŵyr am ddiddordebau a gorchwylion y werin a thlodi bydol cartrefi gweithwyr cyffredin y blynyddoedd cynnar : gŵyr hefyd am olud ysbrydol llawer annedd ddinod yn ei ardal.

Neilltuwyd rhan helaeth o'r gyfrol i hanes lliaws o hen gymeriad-au'r fro. Yn ei ddarluniad o'r cyfryw y mae'r awdur yn tra rhagori : y mae ei ddisgrifiadau mor fyw nes ymgolli o'r darllenydd yn llwyr yng nghymdeithas y tadau. Gwelir felly nad ffeithiau sychion a rhesi o ddyddiadau ydyw'r hanes ond portread byw o ddynion yn ceisio hyd eithaf eu gallu a'u deall i gynnal baner rhyddid, amddiffyn pethau cysegredig, codi cyflwr cymdeithas a hyrwyddo addysg a dyrchafiad y werin yn foesol ac ysbrydol.

Ychwanega'r cysylltiad agos a fu drwy'r blynyddoedd rhwng eglwys Cefn Coed a Cheredigion ddiddordeb y llyfr i Undodiaid Sir Aberteifi. Bu pump o frodorion y sir yno'n gweinidogaethu— Owen Evans, John Hathren Davies, J. Carrara Davies, T. L. Jones a J. Marles Thomas.

Cyfoethogir y gyfrol yn fawr gan 35 o ddarluniau.

O'i ddarllen yn ystyriol dylai'r llyfr symbylu gweithgarwch eglwysi claear yn gystal yn ein henwad ni ag mewn cyfundebau lluosocach, deffry egnion eglwys Cefn Coed ryw ddyhead anochel am adfywiad cyffredinol.

Gwnaeth yr awdur wasanaeth pwysig drwy ei ymchwil fanwl i achub llawer o wybodaeth fuddiol rhag ebargofiant.

Croesawn a chymeradwywn y gyfrol yn galonnog.

W.S.J.

Syr Henry Jones.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

O'r amrywiol ganghennau o lenyddiaeth, pa un ohonynt, tybed, yw'r mwyaf poblogaidd? Tybiaf y gorffwys y cydymgais am y dorch rhwng y nofel a'r bywgraffiad. O ran hynny, onid dwy gainc o'r un gangen yw'r ddwy? Beth arall yw'r nofel ond math ar fywgraffiad? Dywedir mai hanes bywyd yr awdur (Dickens) yw cryn lawer o'r nofel boblogaidd—*David Copperfield*. Yna, o fywgraffiadau, pa un yw'r dilysaf—hunanfygraffiad, ynteu, bywgraffiad gan awdur arall? Yn ffafr y cyntaf y rhoddwn i fy mhleidlais, pe gofynnid imi. Yn yr hunan-fywgraffiad y deuir agosaf at y gwrthrych y'i cofiennir. Fedr neb wybod yn gywirach fanylion ei fywyd nag ef. Yn y bywgraffiad o awduriaeth arall, ni all lai nag y daw i mewn iddo ryw fesur o'r chwedlonol; hyd yn oed yn achos y cofiannydd mwyaf cydwybodol, erys rhyngddo â'r gwrthrych a darlunir ganddo ffin nad yw'n ddichonadwy iddo ei chroesi. Ymguddio o olwg y byd y tu allan iddo, belled ag y medro, a wna dyn; ac ni fedr neb, alluoced y bo, wybod beth yw'r meddyliau a'r teimladau a'r amcanion y sydd guddiedig ym mynwes y person a ddarlunir ganddo ni wynebir mo'r hunan-gofiannydd gan anawsterau o'r math hyn. Posibl ydyw iddo yntau fethu â thynnu'r llen yn ôl ddigon pell, modd y gallo'r darllenydd gael golwg glir ar y sydd tu arall iddi; eithr ef, yn unig, a fedr roddi y darlun cywiraf a chyflawnaf o'r dyn fel y mae.

Rhyw feddyliau o'r math hyn a awgrymwyd imi gan ddau hunan-fywgraffiad a fenthycwyd imi gan Mr. Jenkins, y Llwyn, sef, hunan-fywgraffiad Dr. Robert Collyer, y gof a ddaeth yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfandir Americanaidd, a Syr Henry Jones, y Cymro a esgynnodd o ffon isaf yr ysgol i un o'r safleoedd uchaf ym myd athroniaeth. Yr olaf a fydd dan sylw yn y llith hon.

Syml ddigon yw hanes Henry Jones yn ei flynyddoedd cyntaf. Ganed ef yn 1852, yn ymyl pentref Llangernyw, swydd Ddinbych. Crydd gwlad oedd ei dad, a bu yntau, am dymor, yn dilyn yr un alwedigaeth. Yn y cyfnod hwn, yr oedd ei fryd ar ddau nôd—dod ohono yn henadur yn ei gapel, a dod ohono y crydd gorau yn y wlad. Dau nôd ardderchog, onide? Yn ddiweddarach, gosododd ei fryd ar y weinidogaeth. Bu'n pregethu; ac o fewn i ddim y digwyddodd mai'r weinidogaeth a fai maes llafur ei fywyd. O barthed i'r ail nôd, ymddengys iddo ddod yn eithriadol ddeheuig, ac yntau mor ieuanc—tua'r deuddeg oed y gwisgodd arffedog crydd y tro cyntaf, a llwyr ddiosgodd hi cyn bod ohono'n ugain oed.

Pobl o amgylchiadau bydol isel oedd ei rieni ; eithr o fod ohonynt yn ddiwyd a chynnil, llwyddasant i'w cadw eu hunain rhag suddo ohonynt tan y tonnau geirwon a'u mynych fygythiai. Cyff ysblennydd oedd y cyff y tarddasant ohono—ill dau. "Belled ag y darfu imi glywed, ni bu o'm cyndeidiau un celwyddwr, nac anwr, na bawddyn, na segurwr, na neb o anian galed, angharedig." Ni all neb fod yn gyfrifol am ffaeleddau'i hendadau, mwy nag y gallai'r hendadau fod yn gyfrifol am ffaeleddau'u hiliogaeth, pe caent gyfle. Eithr onid eithriadol yw a honnir gan Henry Jones am ei gyndeidiau ? A dyry'r ffaith hon imi esboniad cyflawn boddhaol am ei fywyd eithriadol glodfawr a llwyddiannus—clodfawr o gymeriad a llwyddiannus yn ei esgyniad o weithdy'r crydd i Gadair Athroniaeth ym Mhrifysgol Glasgow, fel olynydd i'r enwog Edward Caird.

O'm darllen o'i gofiant, cyfyd cwestiwn diddorol i'm meddwl—beth a gyfrif am fywyd o ansawdd mor eithriadol uchel ? Dyry pennod gyntaf y Cofiant imi'r ateb, sef, amgylchedd grefyddol yr aelwyd y maged ef arni. Nid dyn dysgedig mo'i dad—Elias Jones ; eithr oedd ddyn o anian a drwythid gan ysbryd gwir grefyddol. O safle uwch mewn dysg oedd ei fam, hithau hefyd o anian grefyddol, heb frycheuyn ar ei chymeriad. Dywed Henry : "rhoddodd fy rhieni i mi a'm dau frawd hynaf ddygiad i fyny o'r radd uchaf." Ymhellach : "nodweddid fy nhad gan onestrwydd, unplygrwydd, geirwiredd, ffyddlondeb, uwchlaw'r cwbl gan garedigrwydd cymdogol uwchlaw mesur." Am ei fam : "benyw grefyddol oedd fy mam . . . oedd hyddysg yn ei Beibl . . . darllenai bob nofel (Gymraeg) a ddeuai i'w meddiant . . . oedd anarferol o alluog." Oni ddyry'r uchod inni gipdrem rhyfeddol o glir ar y gwreiddyn y tarddodd Henry Jones ohono.

Unpeth a fu'n llestair i'w boblogrwydd yn ei wlad enedigol a fu'r amheuaeth o barthed i iachusrwydd ei ffydd, Nid heb sail iddi y cododd yr amheuaeth. Cyhuddwyd ef, un tro, o wadu dwyfoldeb Crist. "Na wadaf," ebr yntau, "ni wedais i ddwyfoldeb undyn erioed." Dywed : "cyn diwedd y tymor (yn y Coleg), collodd gwyrthiau eu diddordeb imi ; ac megis diflannu o gwmwl, collais afael ar y gredo ddialgar y'm meithrinwyd ynddi. Mynnwn fyrhau'r gredo fel na byddai ynddi ond un erthygl, sef, ' credaf mewn Duw hollgyfoethog o gariad, a llwyr ymgyflwynaf fy hun i'w wasanaeth." Yn sicr, onid credo llwyr ddigonol yw hwn ? Gwisgoedd crefydd yw popeth arall, agored i gyfnewidiadau fel y tyr goleuni gwell ar y meddwl.

Gresyn ydyw i'r Cymry, yn ei achos ef fel yn achos llawer eraill, fethu â gweld y proffwyd ynddo, a'i yrru felly, i feysydd eraill tu allan i ffiniau'i wlad enedigol. Colled a fu hynny i Gymru ; ac ennill mawr iawn iddo yntau.

Henffych Wanwyn Mwyn.

Gan Mrs. A. J. Rees, Llanbedr.

Heddiw, o daflu golwg dros wyneb natur, gwelir adfywiad a chyffro ym mhob man. Cân y fronfraith yn galonnog ar gangen y dderwen yn yr allt gerllaw. Sigla clychau gwyn yr eirlys wylaidd yn yr awel yng nghornel yr ardd. Lliwia'r briallu y border yn goch a gwyn a melyn. Gwthia'r goeden Leilac Gwyn ei dail allan yn hyderus i olau haul a maeth y gawod. Llama'r ŵyn cynnar yn chwareus ar y llechweddau, a phan wena heulwen swil Chwefror ar y meysydd, ymddengys gwyrddlesni'r borfa yn ddyfnach a ffresach. Clywaf mewn dychymyg, ryw lencyn dibrofiad yn gofyn, "Beth yw ystyr y cyfnewidiad yma?" a rhyw hynafgwr profiadol yn ateb, "Y Gwanwyn a ddaeth a'i utgorn arian, ac a gyhoeddodd o ben y bryniau fod y Gaeaf wedi darfod, ac wrth ei lais deffrôdd holl blant anian o'u gaeafol gwsg."

Nid yw eto ond dechrau Mawrth, a hwyrach y cawn dywydd caled cyn gweled ohonom hinon haf, ond plannodd gwawr y Gwanwyn obaith yn y galon am heulwen a thegwch, na ddichon barrug yr hwyr na chenllysg y bore ei ddileu.

Y mae rhyw duedd ynof fi i gyffelybu tymhorau'r flwyddyn i gyfnod oes dyn yn y byd yma. Cyfnod pennodol y tri-ugain-a-deg a feddyliaf. Mae'n wir fod llawer yn mynd i fedd cynnar, rhai yn eu mebyd. Yn gyntaf daw'r Gwanwyn, tymor ieuengrwydd a thyfiant, ac yn ddiamau, y tymor pwysicaf. Gwelir y ffermwr yn mynd ati i drin ei dir, yna'n hau yr hâd. Mor ofalus ydyw i ddewis yr had gorau er sicrhau cynnyrch boddhaol. Dylesid ystyried yr un egwyddor gyda golwg ar fywyd y plentyn. Geilw'r bywyd ifanc am driniaeth fanwl a hâd da i'r meddwl byw a'r ymwybyddiaeth effro. "Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd," meddai'r Beibl. "Ni ddichon pren da ddwyn ffrwyth drwg, na phren drwg ddwyn ffrwyth da." Pwysig iawn i rai y mae plant dan eu gofal yw rhoi iddynt yr hyfforddiant gorau. Gwna esiampl dda a chynghorion cymhellgar ac arferion moesol argraff ddofn ar feddwl plentyn.

Weithiau gwelir maes yn cael ei esgeuluso gan ffermwr difraw. Cyn hir bydd yn llawn chwyn ac eithin mân, ac yn tyfu'n wyllt, fel y dywedwn ni. Yr un peth yn union a ddigwydd i'r plentyn a esgeulusir yng ngwanwyn ei oes.

Yn dilyn y Gwanwyn a'i ramant, daw'r haf, tymor mwyniant a heulwen, blodau a ffrwythau. Erbyn hyn, bydd y bachgen a'r ferch ieuanc wedi gordyfu eu plentyndod ac wedi datblygu'n fodau llawn dwf, ac ymhyfrydant yn nhymor gorau eu bywyd, mewn heulwen a thegwch, yn gryf a heini ac ym mlodau eu dyddiau.

Yn nesaf daw'r Hydref, tymor yr aeddfedrwydd, y cnydau yn barod i'w casglu, a'u cludo i ddiddosrwydd. Ar ôl diosg y ddaear o'i chynnyrch, golwg lled lwm a llwyd sydd arni, arwydd o henaint yn dechrau ymddangos yn ei gwedd, dail y coed yn troi'n llwytgoch, a'r lili a'r rhosyn yn gwywo. Tymor aeddfedrwydd ydyw hydref bywyd dyn hefyd. Erbyn hyn bydd wedi mynd trwy lawer o wahanol brofiadau, ac wedi dysgu llawer oddiwrth droeon ei yrfa. Mae ei feddwl a'i ymwybyddiaeth wedi aeddfedu fel cynnyrch y ddaear. Ond er fod y dyn mewnol wedi cyrraedd aeddfedrwydd, heneiddio y mae'r dyn allanol, neu'r corff, y gwallt yn gwynnu, y cefn yn crymu, a nwyf ieuenctid yn darfod o'i osgo.

Y tymor nesaf a'r olaf ydyw'r gaeaf, a daw a'i rew a'i oerni, pryd y gwelir plant anian yn crino a marw, gan adael yr hen fam-ddaear yn noeth a di-lun. Dyma dymor olaf dyn yn y byd hwn hefyd. Daw stormydd gwendid a methiant i guro arno, ac yn ei henaint nid oes nerth i'w gorchfygu, ac yn ei dro gwelir yntau yn mynd yn aberth i'w fethiant ac yn suddo i'r pridd fel y ddeilen grin.

Gwêl y ddaear wanwyn arall yn gwawrio, ond ni wêl dyn ond un gwanwyn yn y byd hwn, ond y mae gobaith gennym y cawn ddeffro mewn gwlad well, heb ofni heneiddio mwy, ond byw yn ieuanc mewn Tragwyddol Wanwyn.

Brithgofion.

Gan D. T. Williams, Aberdâr.

Wrth ddarllen am farwolaeth David Jones o Frowen, rhuthrai arnaf atgofion bore oes, un yn ymlid y llall. Safai ef yn fyw iawn yn fy nghof, er na welais ef er dyddiau fy mhlentyndod yn yr Efailfach (y mae enw newydd ar y lle yn awr). Cofiaf am fore Sul, yn disgwyl am i bobl barchus ac Undodiaid ffyddlon Frowen, a chyda hwy y foneddiges ffyddlon o'r Castell (wedi hynny o Benlan) ddod i lawr dros rhiw Tanlan.

Cofio am y bore Sul pan wisgid ni mewn dillad dydd Sul Navy Blue a'r esgidiau duon ysgafn yn plwco ; cofio cael ein brwsio yn lân ar y clôs yn barod i'r daith i Frondeifi, yna cerdded drwy bentre Cwmann a thros bont Llambed, "pont Teifi," wrth gwrs, a chael cwrdd â phobl Treherbert, Cwmann, Coedmor, Talfoel, Coedeiddig, a Chwmcanol. Cofio eistedd yn set 23, a'r haul ambell brynhawn yn taro drwy'r ffenestr, y plentyn yn mynd i gysgu a Gruffudd Penlan ddim yn codi i ganu. Cofio am y traps a'r ceffylau y tu allan i'r Ysgoldy ar brynhawn Sul. Yr oeddem yn drŵp gweddol iawn yn cyrraedd Cwmann, boys Gilgell, ninnau'r

tri brawd, y diweddar annwyl Evan Davy, boys Rhoslwyn, a llawer arall. Cofio am dramp un prynhawn dydd Sul yn gofyn i ni ar y ffordd i'r ysgol faint o'r gloch oedd hi, a'r diweddar annwyl Christmas Gilgell yn ateb, "I think by the clock of Cwmanne it is three o'clock." (Nid oedd yr un cloc yng Nghwmann, heb anghofio Siop Enoc, y diacon ffyddlon a didwyll).

Gobeithiem bob amser am gael lift yn nhrap Frowen neu Gilgell.

Cofio am fynd i'r "gymanfa 'sgolion" i Alltyplaca, a gobeithio cael bod yn y ffrynt gyda'r dreifwr. Cofio am gae yn llawn cowslips y tu allan i Gapel y Groes. Cofio am y daith i holi'r pwnc yng Nghaeronnen, a chael tê ar y lawnt mewn tŷ ar bwys. Cofio'r Parch. E. O. Jenkins yn dweud un peth (dros 35 mlynedd yn ôl), "Os nad ydych yn mynychu'r capel, gwisgwch ddillad dydd Sul." Talu parch i'r Sabath oedd ei neges.

Cofio am y Band of Hope ym Mrondeifi ar nos Wener dan ofal "Hannah Brondeifi"—Gamaliel o ddynes. Dyna'n anrhydedd ni ! Hi ddysgodd i mi gyntaf o farddoniaeth Dafis Castell Hywel :—

"Gweld fy nhad yn plygu'i liniau
Mewn defosiwn hwyr a borau
Barodd i mi'n blentyn gynta'
Feddwl am y Duw Gorucha' . . .

Wrth fugeilio'n llencyn egwan
'Ddeutu wyth neu naw mlwydd oedran
Ar y banc mewn rhedyn tewion
Rhwng y defaid a'r da duon
Syrthiais gyntaf ar fy neulin . . ."

Beth pe bai'r ddynes alluog hon wedi cael cyfleusterau addysg ? Cofio'r diweddar Dan Doctor yn gweddïo, a'r unig eiriau a gofiaf, "Diolch i ti, Dad grasol." Wrth feddwl am yr ysgoldy, cofio'r heddgeidwad hwnnw yn athro yn yr ysgol Sul, ei "helmed a phigyn" yn cwympo oddiar y peg, a'r pigyn yn taro un o'r bechgyn ar ei ben. Cofio am yr athraw annwyl, y diweddar Dafy Go, yn rhoi bananas i'w ddisgyblion yn nyddiau llawnder. Cofio am y tê parti yn yr ysgoldy, a'r "Caraway Seed Cake." Dyna drêt i ni, blant y wlad, y *country bumpkins*, ys dywedai plant Llambed. Cymrent hwy arnynt eu hunain fod yn rhywbeth gwell na ni, plant ochr draw'r bont.

Cofio'r emyn cyntaf a ddysgwyd i mi :—

"Y cysur i gyd
Sy'n llanw fy mryd
Fod gennyf drysorau
Uwch gwybod y byd . . ."

Cofio am brynhawn Sul, a'r bachgen ifanc o Landdewi yn pregethu ar un o'i droeon cyntaf, ac yntau yn awr yn Olygydd parchus Yr Ymofynnydd. (Llongyfarchion, J.D. Melys oedd clywed eich llais pwy ddydd ar y radio—llais Undodwr yng nghanol y cawdel uniongredodd a wthir i lawr ein gyddfau). Cofio fy mam yn dweud ar y daith adref o'r cwrdd fod yr "hen wr" (gyda pharchedig ofn y siaradai amdano) wedi gweld ein bedyddio ni i gyd. Ef oedd y Parch. Rees Cribin Jones. Cerddwn yn ei llaw, a hithau'n ymffrostio yn Nhynrhewl a Chaeronnen.

Cofio, a minnau'n ieuanc iawn, am Watkin Samuel a Gruffudd Penlan yn galw yn yr Efailfach, a'r boneddwr, neu fel y dywedodd cyfaill yn ddiweddar, "If there is a gentleman born, Mr. W. S. Jones is that," yn gwisgo Straw Hat, y gyntaf i mi weled mwy na thebyg, a hithau wedi mynd allan o'r ffasiwn bellach. Hyfryd yw meddwl fod Idris Gilgell yn amaethwr llwyddiannus. Pa ryfedd! Oni chofiaf am wyliau'r ysgol, a ninnau'n helpu gyda'r gwair a'r cynhaeaf llafur yng Nghilgell. Mwy na thebyg ein bod ar y ffordd lawer tro—beth ddywed Mrs. Evans, Coedmore Hall? O feddwl am wyliau ysgol, llawenydd ydyw darllen fod Benjamin John yn "sgwlyn Ram." Tybed, a ydyw "North Tops" a "South Downs" mewn bod o hyd?

Rhyfedd fel y mae darllen yn y *Welsh Gazette* am farwolaeth David Jones, Frowen, yn cyffro fy meddwl ac yn deffro atgofion bore oes. Wrth feddwl am y cewri yn cerdded y milltiroedd yn gyson i Frondeifi, a minnau heno yn breuddwydio amdanynt ym "Mrondeifi," Aberdâr, dywedaf hyn :—

"'Rym, ein Duw, yn ofni weithiau
Mai rhy rwydd yw'n llwybrau ni,
Ac y dichon i ni golli
Awydd am dy gwmni di;
Gwna ni'n debyg
I'r ffyddloniaid dewrion gynt."

Marwgofion.

Ar 12 Ionor, WILLIAM RICHARD EVANS (W.R.), yn 68 mlwydd oed. Claddwyd ef yng Nghladdfa Gyhoeddus Aberdâr ar 19 Ionor, a r Parchedigion J. Marles Thomas a D. Jacob Dafis yn gwasanaethu. Yr oedd Mr. Evans yn frawd i r diweddar Barchedig D. Jenkin Evans, Caer, ac yn bregethwr cynorthwyol o fri yng nghylch Undodaidd y De. Er mai aelod o eglwys Saesneg Highland Place, Aberdâr, ydoedd, yr oedd yn Gymro gloyw ac yn flaenllaw yn y byd eisteddfodol. Bu galw mawr arno fel adroddwr, ac

enillodd rai o wobrau blaena r genedl yn y byd hwn. Yr oedd yn artist ar y llwyfan, yn artist fel arweinydd cymanfa ganu, ac yn artist hefyd yn ei fywyd bob dydd. Gedy rhai gyfoeth a meddiannau ar eu hôl; gedy W.R. fwlch fel pob dyn da. Cynhaliwyd cwrdd coffa arbennig iddo yn ei gapel rai dyddiau wedi'r angladd.

Ionor 22, yn 78 oed, RACHEL HOWELLS, annwyl briod Samuel Howells, Gwynfryn, Drefach, Llandysul, ar ôl cystudd maith a chaled. Dynes siriol, garedig oedd Mrs. Howells, cymdoges dda, ac un o anian grefyddol gref. Merch ydoedd i'r diweddar Evan Jones, Siop Pensarn, Drefach, a fu am flynyddoedd maith yn ddiacon yng Nghapel y Graig, Llandysul. Gan fod Capel Penrhiw yn gorfod byw ar wasanaethau achlysurol, mynychai hi eglwys y plwy, a deallwn iddi fod yn wir ffyddlon gyda'r gwasanaethau a'r ysgol Sul. Pan gynhelid gwasanaeth yng Nghapel Penrhiw, byddai hi yno yn ddiffael, oni fethai gan afiechyd. Yr oedd ganddi serch mawr tuag at y capel a'r fynwent. Gadawodd i alaru ei cholli, ei phriod, chwaer, a llawer o berthynasau eraill. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Siloh, a gwasanaethwyd gan y Parchedig Mr. Evans, rheithor Penboyr, a'r Parchedigion E. O. Jenkins, Thomas Davies (Drefach), a Derfel Rees (Siloh).

Ionor 22, yn 66 mlwydd oed bu farw yn dra annisgwyliadwy DAVID JONES, Frowen, Pencarreg, Llanbedr. Ffermwr cyfrifol yn ei ardal ydoedd, wedi ei eni a'u fagu yn Frowen, ac iddo air da fel cymydog parod, gŵr caredig yn llawn o hiwmor iach, a pherchid ef gan ardal eang. Credid a chredai yntau ei fod yn iachach nag y bu ers blynyddoedd ond ymhen ryw awr neu lai yr oedd ei ysbryd addfwyn a rhadlon wedi ehedeg ymaith. Y mae hen deulu'r Frowen wedi bod ynghlwm a Brondeifi o'r dechrau ac edrychem ymlaen i gael ei gymorth a'i gyfarwyddyd am flynyddoedd lawer ond fel arall y bu. Y mae aelwyd Frowen yn wacach ac yn oerach, ac y mae'r briod hoff a'i fab a'i ferch yn teimlo angen ei gysgod. Y mae un brawd a chwaer yn aros o'r teulu, ill dau weithian ar aelwyd Brynmanalog yn ymyl. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei weinidog gyda chynorthwy parod Gweinidog Rhydybont a Ficer Pencarreg ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog. Y mae wedi blaenu ac aelwyd, ac eglwys ac ardal ar eu colled. Nid ar fyrr yr anghofir y wên serchus, y galon garedig a'r hiwmor iach, ond y golled fwyaf yw i'r teulu bach ac y mae'r Frowen heddiw dan gwmwl du.

Ar Chwefror 5, ar ôl cystudd byr, bu farw JOHN LEWIS DAVIES, Isfryn, Teasville Road, Lerpwl, sef unig fab i'r diweddar Dr. Lewis Davies (mab Cwmdyllest) a Mrs. Davies, Penlone House, Llandysul. Pan yn ieuanc, aeth i Lerpwl dros hanner can mlynedd yn ôl i ymuno â chwmni mawr yn y ddinas yn Birkenhead, sef Paul Bros., Ltd., a bu yn brif gynrychiolydd iddynt yn ninas Manchester am dros bedair a deugain o flynyddoedd. Ymneilltuodd o'i swydd rai blynyddoedd cyn y rhyfel mawr, ac fel y gorfu i'w olynydd ymadael i'r llu arfog, galwyd ef yn ôl eto dros y rhyfel, a gwasanaethodd hyd

ei farwolaeth. Yr oedd yn adnabyddus a pharchus iawn yn myd masnach y ddwy ddinas, a pherchid ef yn fawr gan y Cwmni a'i gydswyddwyr. Dyn tawel, diymhongar, a charedig oedd John Davies. Yr oedd yr angladd yn anghyoedd, a chladdwyd ef mewn man tawel a thlws, ar lannau Menai, rhwng Caernarfon a Sir Fôn, yng Nghladdfa Llanfair-isgaer, ger Portdinorwig wrth fedd ei briod, a'i rhagflaenodd saith mlynedd yn ôl. Gadawodd mewn hiraeth ar ei ôl, J. C. Jones, Derwydd, Brynteify, brawd-yng-nghyfraith; Mr. a Mrs. Lewis J. Jones, Barclays Bank, Llangefni, Môn; Mr. a Mrs. D. M. Davies, Midland Bank, Abergwaun, Sir Penfro, neiaint. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lawrence Redfern, M.A., B.D., Ullet Road, Lerpwl, ac yn y gladdfa gan y Parch. Mr. Edwards, Ficer Caernarfon.

Chwefror 6, yn 80 mlwydd oed, bu farw MARGARET THOMAS, Tanybryn, Cwmanne, Llanbedr. Benyw dawel a siriol ydoedd, yn byw yn yr encil a neb yn gwybod bron ei bod yno. Yr oedd bob amser yn addfwyn ac ar ei gwên. Genedigol ydoedd o Ffosdygariad hen fagwyr weithion yng Nghellan ond wedi byw bellach ers deugain mlynedd yn Nhanybryn. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Caeronen a'r Gweinidog yn gwasanaethu.

Chwefror 8, RACHEL DAVIES, The Cross, Trebanos, yn 72 mlwydd oed. Yn Nhrebanos y'i ganed, ac yno y treuliodd ei dyddiau. Gŵyr pobun a adwaenai Mrs. Davies yn dda fod bwlch mawr ar ei hôl nid yn unig ym mywyd yr aelwyd gartref ond yng nghymdeithas ein defosiynau yng Ngelliionnen a'r Graig ac ym materion cyffredin y pentref. Ymhlith ei chydnabod bydd ei choffadwriaeth yn aros yn beth melys a chysegredig. Perthynai hi i gylch y mamau sy'n gwneud eu cartrefi'n ymgeledd i'r dylanwadau hynny sy'n gymorth i ddynion dyfu a datblygu bywyd yr ysbryd. Diolchwn am wasanaeth tawel Mrs. Davies ymhlith ei chymdogion a'i chydnabod, am y galon lawn o gydymdeimlad a gurai'n ei mynwes hi, am ei doethineb a'i gwroldeb yn wyneb llawer o drafferthion yr hen fyd yma. Diolchwn am ei gweithgarwch tawel, gweithgarwch anamlwg yn fynych, yn y pethau a berthyn i gymdeithas, ei chapel a'i chymdogaeth. Pymtheg mlynedd yn ôl bu farw ei phriod, Mr. Amos Davies, dyn yr erys ei goffadwriaeth yn annwyl o hyd ymhlith ei gydnabod. Cofir amdano ym mlynyddoedd diwethaf ei fywyd fel ceidwad yr Eglwys Wladol yn Nhrebanos, a cheidwad ffyddlon, yn ymfalchio yn ei waith ydoedd. Gwyddom am dreialon Mrs. Davies. Cariodd faich trwm, ond dywedai ei hwyneb bob amser fod ei chalon yn gwybod am y nerth sy'n dod yn ôl y dydd. Corff bregus, ond gwyddai beth ydoedd byw yng nghanol anwyldeb ei chysylltiadau teuluol. Wynebodd anawsterau mewn ffydd a gwroldeb, a chadwodd ysbryd siriol. Yr oedd yn mwynhau cyngerdd yn y capel, yn caru bod yn ddefnyddiol mewn tê parti, yn ôl ei gallu yn cynorthwyo'r chwiorydd yn ei hymdrechion dros yr achos. Nid yw iechyd y ferch, Ray, fel y dymunid iddo fod, ond cafodd nerth i weini'n dirion ar ei mam yn ei chystudd olaf. Y mae ein cydymdeimlad gyda hi, a chyda'i brawd Wyndham. Gyda hwy yn barhaus ei gwyliadwriaeth yr oedd

y ddwy chwaer, Mrs. Banos Davies a Mrs. Seaborne, a'r unig frawd, Mr. William Bowen. Gyda hwy a chysylltiadau lluosog y teulu y mae ein cydymdeimlad dwfn. Y dydd lau dilynol ar y ffordd i'r fynwent cynhaliwyd gwasanaeth coffa yng Nghapel y Graig, y Parchedigion J. D. Jones a Dl. John yn gweinyddu. Claddwyd ym mynwent Eglwys Sant Pedr, Pontardawe, y ficer yn gweinyddu wrth y bedd.

Chwefror 14, STEPHEN JONES, Blaencwrt, Llanwnen, yn 48 mlwydd oed. Dechreuodd ei iechyd waelu tua chwech mis yn ôl. Bu yn Ysbyty Aberystwyth, ond ni fedrodd y meddygon yno adfer ei iechyd. Ymbridoodd ag unig ferch Mrs. Jenkins a'r diweddar Jenkin Jenkins, Blaenwaun-uchaf, Llanwnen. Rhagflaenodd ei briod ef bedair blynedd yn ôl. Un yn gofalu am ei orchwylion dyddiol ac am ei deulu ydoedd, ac yn gwneud hynny mewn ffordd ddistaw a didrwst. Ei gartref oedd canolfan ei fywyd, a thra bu ei briod ac yntau yn iach yr oedd hapusrwydd yno. Yr oedd o anian dawel, o ysbryd hynaws ac o egwyddor uniawn. Bodlonai ar beidio â bod yn amlwg, ond yn ei gylch ei hun deuai ei rinweddau i'r golwg, ac yr oedd iddo yn y cylch hwnnw barch mawr. Gedy un mab ieuanc sydd wedi cael colled fawr. Yr oedd llwyddiant hwn yn yr ysgol Ganolradd yn rhoddi addewid am ddyfodol disglair iddo, ond bu raid iddo oblegid gwaeledd iechyd ei dad adael yr ysgol a dod gartref. Claddwyd ym mynwent eglwys Capelygroes. Pregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Evans Bowen, Galltyplaca a T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Gadawodd hefyd mewn galar un brawd, mam-yng-nghyfraith a brawd-yng-nghyfraith, ac amryw o berthynasau eraill.

Chwefror 24, yn 17 mlwydd oed bu farw JENKIN, mab Mr. a Mrs. Davies, Ffosffald-isaf, Llanwenog. Ni wyddid hyd y diwedd bron ei fod yn dihoeni. Edrychai yn gryf ac iach a gellid cymryd fod oes hir o'i flaen ond,

'Disgwyl pethau gwych i ddyfod,
Croes i hynny maent yn dod.'

Dyna ydoedd yn hanes y teulu hwn. Syrthiodd yn aberth i'r Pla Gwyn y sydd wedi difa cynifer o ieuenctid ein gwlad. Ehedodd ei ysbryd ieuanc ymaith ar fyr rybudd gan adael tad a mam, brawd a chwaer heblaw perthynasau eraill a chyfeillion lawer i alaru o'i golli mor gynnar. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. S. E. Bowen a Ficer Llanwenog. Pregethwyd ei bregeth goffa yng Nghapel Cribyn gan y Parch. T. O. Williams a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams a Ficer Cribyn. Gorwedd yn naear mynwent y Cribyn a ninnau'n gofyn,—

'I ba beth y bu y golled hon?'

Chwefror 25, ar ôl ychydig oriau o gystudd caled, ELIZABETH EVANS, gweddw John Evans, Moelhedog Fach, Pontshan, yn 85 oed. Y diwrnod cynt yr oedd i bob ymddangosiad yn ei hiechyd arferol, a mwynhaodd ei chinio. Yn union wedi hynny cymrwyd hi'n wael iawn, a'r hwyr dilynol ffarweliodd. Yn enedigol o'r ardal, treuliodd ei hoes faith ynddi. Yr oedd yn un o wyth o blant—pedair chwaer a phedwar brawd—erbyn hyn dau frawd yn unig sy'n aros. Magodd hithau wyth o blant, a bu'n fam dda a charedig. Blynyddoedd caled i weithwyr y wlad oedd blynyddoedd cynnar ei bywyd, yr huriau'n isel iawn. Llwyddodd er hynny i gadw aelwyd glyd. Er iddi fyw heibio i bedwar ugain a phump o flynyddoedd nid oedd arni arwyddion henaint. Cadwodd ei chorff a'i hysbryd yn ieuanc. Yr oedd yn gryn iechyd i'w chlywed yn chwerthin weithiau. Praw o'i hysbryd ieuanc oedd yr hwyl a gai yng nghwmni ei hwyrion a'i gor-wyrion. Collodd fab yn rhyfel 1914—1918, a theimlodd yn arw oddiwrth yr ergyd. Collodd ei phriod yn agos i bymtheg mlynedd yn ôl. Gadawodd i wylo ei cholli dri mab, tair merch, dau frawd, wyrion a gor-wyrion. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins a D. A. Williams (Carmel).

Chwefror 28, Mrs. JANE ELIAS, C.M., gweddw y diweddar Thomas Elias, C.M., Parc, Ciliau Aeron, yn 67 mlwydd oed. Ar ôl cladddigaeth ei phriod aeth at y Capten a Mrs. Davies, Hollis, Llanbedr, brawd-yng-nghyfraith a chwaer, er cael ychydig seibiant. Yno cymerwyd hi yn wael, a pharhaodd ei hafiechyd am chwech wythnos. Gweiniwyd arni yn dirion gan Mrs. Davies a Miss Davies, a chan Mrs. Hughes Davies, Bridgewater, chwaer arall. Cymrodd ei chladdedigaeth le ym mhen dau fis ar ôl claddedigaeth ei phriod. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Thomas Evans, Tynant, Ciliau Aeron. Bu yn athrawes mewn ysgol yn Llundain am rai blynyddoedd. Daeth yn ôl i fod yn brif athrawes ysgol Peterwell, Llanbedr. Enillodd air da fel athrawes yn y lle hwn, a pharch ei is-athrawesau. Ar ôl ymbriodi treuliodd flynyddoedd gyda'i phriod yn Rhydlewis, ef yn brifathro ysgol y Cyngor yno. Pan ymddiswyddodd Mr. Elias, daethant i fyw i Parc, Ciliau Aeron. Nodweddid hi gan gymeriad cryf, gan ddiddordeb ym mhethau gorau bywyd, gan wybodaeth helaeth, a chan barodrwydd i gynorthwyo pob peth a oedd o duedd i ddyrchafu bywyd. Gedy le gwag iawn yng Nghapel Ciliau, a gwelir ei heisiau yno am hir amser. Gadawodd ddau fab, dwy chwaer a'u teuluoedd, a llawer o berthynasau agos eraill mewn galar dwys. Mae un o'r meibion yn electric engineer yn Bath, a'r llall yn y Banc yn St. Clears. Claddwyd ym mynwent Capel Ciliau. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. M. Davies, Hawen, Rhydlewis, a T. J. Jones, Rheithor Ciliau. Chwaraewyd yr organ gan Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL Y BRYN.—Rhoddodd Cymdeithas y Chwiorydd eleni eto wledd i'r ysgol Sul a'r gymdogaeth. Yr oedd y trefniadau ar gyfer pawb, ac yn rhagorol. Anrhegwyd ffyddloniaid yr ysgol Sul â llyfrau dethol. Cafodd pob plentyn a oedd yn bresennol rodd o Oranges—rhodd garedig Mrs. James Jones, Caerau (gynt Brynllefrith). Diweddwyd y dydd mewn cyngerdd diddorol dan lywyddiaeth Mr. David Evans, Melrose Park.

CILIAU AERON.—Ar Chwefror 20 cynhaliwyd y Sosial Flynyddol. Dyma'r cynulliad lluosocaf oddiar i ni gychwyn y Sosial. Yn ôl eu haelioni arferol darparodd y gwragedd arlwy yn cynnwys pob math ar ddanteithion, ac yr oedd wynebau y rhai a fu'n cyfranogi ohonynt yn dweud eu bod wedi eu mwynhau. Cafodd y plant roddion gan Mrs. Richards, Maesygaer, a Mrs. Jonathan, Hampton House. Yna caed rhaglen o adrodd a chanu ac ateb gofyniadau. Da oedd gennym fod y bobl ieuainc yn amlygu cymaint o wybodaeth gyffredinol. Canodd y côr amryw o weithiau. Un peth rhagorol iawn yn y cyfarfod oedd y naws ffein a oedd ynddo.

RHYDYGWIN.—Hwyr Chwefror 3, cynhaliwyd y Sosial Flynyddol. Fel arfer, bu'r gwragedd yn hael yn eu darpariaeth ar gyfer y tê, a huliwyd y byrddau â'r fath amrywiaeth o ddanteithion fel y cafodd pawb eu boddloni. Yna cymrodd Miss Jones, Wernfeilig, a Miss Davies, Maesffynnon Cottage, at eu gwaith o rannu gwobrau i'r ieuenctid a fu'n ffyddlon gyda'r ysgol Sul ar hyd y flwyddyn. Cafodd deg ar hugain o blant perthynol i'r lle rodd ariannol. Ar ôl hynny, bu'r ieuenctid yn adrodd a chanu. Cafwyd anerchiadau gan rai mewn oed, ac er na chydnabyddir hwy fel rhai cyhoeddus, cafwyd ganddynt sylwadau buddiol iawn. Ymadawyd ar ôl dwy awr o fwynhad mawr.

BRONDEIFI.—Ar brynhawn Sul, Ionor 11, talodd y Parch. Laurence Redfern, M.A., B.D., gweinidog Eglwys Ullet Road, Lerpwl a Llywydd y Gymdeithas Gyffredinol am y flwyddyn, ymweliad a Sir Aberteifi, gan bregethu am 2 o'r gloch ym Mrondeifi, ac am 6 yng Nghapel y Graig, Llandysul. Daeth cynulleidfaoedd da ynghyd i'r ddau gapel a chawsom ni ym Mrondeifi gwmni cyfeillion o Giliau, Rhydygwin, Capelygroes, Capel y Bryn, Alltyplaca a Chaeronnen. Yr oedd Brondeifi'n llawn er bod yr hin yn wlyb. Gwr golygus, llawn hiwmor iach ac *orator* oedd Redfern, ac yn traethu ei neges gyda nerth. Mynnai fod lle i Ryddfrydiaeth heddiw pan yw ysbryd Ffasgiaeth yn y tir ymhob ystyr. Nodyn ei neges oedd eiddo y bardd Rhufeinig, ' Remember in difficult times to keep a steadfast mind.' Nid wyf yn sicr na cheir cnewllyn ei neges ym mharagraff olaf ei erthygl, ' Our Unitarian Outlook in Britain ' yn y *Christian Register* am Ionor 1948,—

"The peoples of the world are crawling round the circumference of life . . . It is our faith that a great religious revival would show them the short cut home. For that revival we . . . labour and pray, steadfast in the conviction that when the naked issue is seen—God or nothing, Christ or Caesar, Brotherhood or Power Politics, Immortality or a dog's death—mankind will take its stand by the values of the spirit. And by our faith and steadfastness we believe that we shall help to start a fire that will one day tear through the stubbly fields of materialism and indifference and bring in a great spiritual revival."

Credaf bod ei neges yn amserol ac y dylasai Llywydd y Gymdeithas gael amser i draethu'i neges ac nid rhyw ysbaid fer ynghanol Cyrddau'r Gymdeithas. O leiaf, y farn gyffredin oedd ein bod wedi cael un o'r areithiau goreu a gawsom ers tro gan Lywydd y Gymdeithas. Diolchwyd i Mr. Redfern ym Mrondeifi gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Ymhellach fel iawn i aelodau'r Capeli am ddod cyn belled o gartref, estynnodd eglwys Brondeifi groeso cynnes i'r dieithriaid a phawb bron yn y Festri, ac yr oedd Mr. Redfern yn mwynhau ei hun ynghanol ei gyd-Undodiaid. Yr oedd boneddigesau Brondeifi (a defnyddiaf y gair o fwriad) wedi rhagori arnynt eu hunain, ac y mae hyn yn gamp, with lwytho'r byrddau a phob danteithion. Yr oedd y te yn werth y gost a'r drafferth er mwyn tynnu aelodau y gwahanol eglwysi yn nes at ei gilydd a rhoi i ni yr ymdeimlad ein bod yn aelodau o un Undod mawr. Y mae'r gweinidog yn falch oherwydd i'r gynulleidfa roi'r wledd o wirfodd calon heb un cymell. Diolch yn fawr.

T.O.W.

ENGLYNION COFFA.

(Am Evan a Margaret Jones, Glydwer, Llanwennog).

Dristed rhoi Marged ym medd !—O'r Glydwer
'E gludwyd perl rhinwedd ;
Weithion i'w thŷ, nyth ei hedd,
Ow ! 'r hiraeth o'i rhoi i orwedd !

Fwyn a gwledig Ifan Glydwer !—Gŵr oedd
O'i grud, galon dyner ;
Bydd mwy o rif y nifer
Cyfiawn byth, a'r cof yn ber !

Cledlyn.

SIW A MIW.

(Dau englyn i'r hen bâr ffyddlon a distaw a enwir gyda'i gilydd bob amser yn y frawddeg,—' Heb na Siw na Miw.')

Pwy yw *Siw* a *Miw* ? A oes modd—gwybod ?
A oes gobaith, rywfodd,
Gael âch y rhai bach, o'u bodd ?
Mae'n gwestiwn, gwn, go anodd.

Ar *Miw*, nag ar *Siw*, nid oes awydd—dweud
Un dim, yn dragywydd ;
Un yn fudan o'i fedydd
Oedd *Miw*, a *Siw* yn *ddumb* sydd.

CLEDLYN.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Cynhelir

CYRDDAU'R PASG

Yng NGHRIBYN

Mawrth a Mercher, Mawrth 30 a 31, 1948

Nos Fawrth am 6.30—GWASANAETH.
Dydd Mercher am 10.30. PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.
Am 2 a 6. GWASANAETHAU.

Disgwylir i bregethu y Parchedigion E. GWILYM EVANS, Llandysul ; J. D. JONES, Gellionnen ; J. MARLES THOMAS, Cefn Coed ; D. JACOB DAFIS, Aberdâr, ac eraill.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.